**Caethiwed**

Fy emosiynau yn gaethweision i'm meddyliau,
ond fi yw caethwas fy emosiynau.

Fel carcharor yn gaeth i’w gell
fy meddyliau'n dal gafael arnaf.
Teimlaf y gorbryder ym mhobman
o fy mhen sy’n curo, i fy mol sy’n troi.

Weithiau, gwan yw’r teimladau,
a fy mhen yn glir, gallaf weld yn glir.
Diwrnodau eraill, mae’r corwynt yn dod,
yn golchi unrhyw sail o hapusrwydd sydd gennyf i ffwrdd.

Dwi eisiau gadael fynd, a bod mewn rheolaeth,
ac weithiau, am funud gloi, mae’n gweithio,
ond bob tro mae’r cadwyni'n cael eu rhoi yn nôl
a dwi’n colli rheolaeth, colli fy nghryfder.

Er hyn, mae gobaith gennym,
gobaith bydda i’n cael fy rhyddhau un diwrnod;
gobaith bydda i’n gallu codi heb deimlo’r cwmwl uwch fy mhen;
gobaith bydda i’n gallu teimlo, teimlo go iawn, unwaith eto.

Evie Hunt
Blwyddyn 10